**EITEM AR YR AGENDA: 13**

# GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU
# ADRODDIAD AR GYFER PANEL GWEITHREDOL YR AWDURDOD TÂN

| | |
|---|---|
| DYDDIAD: | 31ain Ionawr 2005 |
| ADRODDIAD GAN: | **Y PRIF SWYDDOG TÂN** |
| DIBEN YR ADRODDIAD: | Rhoi gwybod i'r Aelodau am nifer staff yr ochr weithredol sydd wedi eu hadleoli dros dro. |

1. **CYFLWYNIAD**

1.1 Wrth drafod recriwtio diffoddwyr tân rhan amser dan y materion brys yn y cyfarfod o'r Panel Gweithredol ar 18fed Hydref 2004, cafodd cais ei wneud i gael gwybod yn y cyfarfod hwn o'r Panel Gweithredol am nifer staff yr ochr weithredol sydd ar adleoliad dros dro.

1.2 Adleoliad (*detachment*) yw'r term a ddefnyddir pan fydd aelod o staff yn cyflawni yr un dyletswyddau mewn lleoliad gwahanol, neu ddyletswyddau uwch mewn lleoliad gwahanol neu yn yr un lleoliad, dros dro.

1.3 Gall adleoli ddigwydd am sawl rheswm, megis salwch tymor hir (mwy na 28 niwrnod), cwrs preswyl yng Ngholeg y Gwasanaeth Tân (sy'n para 4 wythnos neu fwy), neu swydd wag. Efallai ei bod yn briodol ar gyfer datblygiad gyrfa tymor hir yr unigolyn i gael profiad o reolaeth uwch. Gall hyn ddatblygu medrau'r unigolyn mewn ystod eang o sgiliau gwahanol.

2. **ADLEOLIADAU**

2.1 I'ch galluogi i ddeall y tabl, dyma restr o'r nifer o staff yn yr ochr weithredol llawn amser ym mhob lefel o'r Gwasanaeth:-

- Diffoddwr Tân – 143 (Pob un ar orsafoedd llawn amser)
- Rheolwr Criw – 50 (48 ar orsafoedd llawn amser)
- Rheolwr Gwylfa – 47 (22 ar orsafoedd llawn amser)
- Rheolwr Gorsaf A – 17
- Rheolwr Gorsaf B – 14
- Rheolwr Grŵp A – 8

2. **<u>ADLEOLIADAU</u>** *(parhad)*

2.2 Mae'r tabl isod yn dangos nifer y staff sydd ar adleoliad ar hyn o bryd sef ar 17eg Ionawr 2005.

| Nifer | Rôl Barhaol | Rôl Adleoliad | Rheswm am y swydd |
|---|---|---|---|
| 24 | Diffoddwr Tân | Rheolwr Criw | 7 x Salwch<br>3 x Cwrs Coleg y Gwas. Tân<br>12 x Swydd Wag<br>2 x Datblygiad |
| 15 | Rheolwr Criw | Rheolwr Gwylfa | 3 x Salwch<br>2 x Cwrs Coleg y Gwas. Tân<br>10 x Swydd Wag |
| 2 | Rheolwr Criw | Rheolwr Gorsaf A | 1 x Cwrs Coleg y Gwas. Tân<br>1 x Salwch |
| 5 | Rheolwr Gwylfa | Rheolwr Gorsaf A | 2 x Salwch<br>1 x FSEC *<br>1 x Swydd Wag<br>1 x Datblygiad |
| 1 | Rheolwr Criw | Rheolwr Gorsaf B | 1 x Salwch |
| 4 | Rheolwr Gorsaf A | Rheolwr Gorsaf B | 2 x Salwch<br>2 x Swydd Wag |
| 1 | Rheolwr Gorsaf B | Rheolwr Grŵp A | 1 x Salwch |

*** FSEC yw prosiect Gofal Brys y Gwasanaeth Tân (Fire Service Emergency Cover) gan yr ODPM**

3. **<u>Y SEFYLLFA BRESENNOL</u>**

3.1 Ar hyn o bryd y nifer llawn o ddiffoddwyr tân llawn amser sydd yn y Gwasanaeth yw 153, sydd ddeg yn uwch na'n lefel arferol sef 143. Mae hyn oherwydd bod y Gwasanaeth yn adnabod y gofynion sydd eu hangen o ran lefelau criwiau cyn i bobl ymddeol.

3.2 Gan gymryd ein nifer llawn i ystyriaeth, a nifer y diffoddwyr tân sydd ar adleoliad, mae'r Gwasanaeth ar hyn o bryd yn gweithredu gydag 14 yn llai o ddiffoddwyr tân nag o dan yr amgylchiadau delfrydol. Mae'r sefyllfa honno yn amhosibl ei chyrraedd oherwydd salwch, swyddi gwag, cyrsiau yng ngholeg y gwasanaeth tân, prosiectau penodol a datblygiad gyrfa.

3.3 O safbwynt y ddarpariaeth ar yr ochr lawn amser, nifer y diffoddwyr tân sydd eu hangen yn yr 8 o orsafoedd llawn amser yng Ngogledd Cymru i gynnal y lefelau criwiau yw 116. Mae'r Gwasanaeth yn gweithredu gyda 129. Y nifer hanfodol o ddiffoddwyr tân sydd eu hangen i weithredu ar y lefel isaf fyddai 90.

3.4 Mae'n rhaid i bob criw diffodd tân gael rheolwr, sef naill ai rheolwr gwylfa neu reolwr criw. Byddai lefel criwiau arferol yn gofyn am 26 o'r rheolwyr yma, ac ar hyn o bryd mae gan y Gwasanaeth nifer llawn o 60. Hefyd, mae 15 arall yn cyflawni dyletswyddau arbenigol. O ran y lefel yma o reolwyr, y lefel criwiau arferol yw'r lefel isaf o griwiau hefyd.

3. **<u>Y SEFYLLFA BRESENNOL</u>** *(parhad)*

3.5 Wrth gyflwyno'r strwythur reolaethol newydd, hysbysebwyd pob rôl a phenodwyd staff iddynt. Y lefel y penodwyd iddi ddiwethaf oedd Rheolwr Gorsaf A ar 5ed Ionawr 2005. I rôl y Rheolwr Gwylfa y byddwn yn penodi nesaf a byddwn yn cynnal y cyfweliadau yn ystod yr wythnos gyntaf yn Chwefror 2005. Rhagwelir y byddwn trwy hynny'n llenwi'r 10 swydd sydd yn y tabl. Y cam nesaf fydd penderfynu ar y lefel Rheolwr Criw, sef ar ddiwedd Ebrill 2005.

4. **<u>CASGLIAD</u>**

4.1 Bydd y gyfres presennol a'r nesaf o benodiadau'n datrys y rhan fwyaf o'r materion swyddi gwag ar lefelau Rheolwr Criw a Rheolwr Gwylfa.

4.2 Mae'r Gwasanaeth yn gweithredu polisi salwch cynhwysfawr sy'n golygu monitro unigolion, a lle bo'n briodol, ddefnyddio'r adnoddau iechyd galwedigaethol er mwyn sicrhau gwellhad buan a dychwelyd i'r gwaith.

4.3 Mae 'r gofynion o ran diffoddwyr tân, a recriwtio'n cael eu monitro'n barhaus, ac mae'r Dirprwy Brif Swyddog Tân ar hyn o bryd wrthi'n penodi 12 o recriwtiaid i ddechrau gweithio ym Mawrth 2005.

5. **<u>ARGYMHELLIAD</u>**

5.1 Bod yr aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad.